Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Perfformiad**
Dyddiad y cyfarfod	**14 Gorffennaf 2022**
Aelod / Swyddog Arweiniol	**Gill German (Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc), Geraint Davies (Pennaeth Addysg)**
Awduron yr adroddiad	**Mari Gaskell a Joseph Earl**
Teitl	**Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Gorffennaf 2022**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wnaed i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol ac ysgolion yn barod i fodloni eu gofynion statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), 2018.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I ddarparu gwybodaeth am y camau a gymerwyd i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol ac ysgolion yn barod i fodloni eu gofynion statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), 2018 a ddechreuodd ym mis Medi 2021 ac sydd ar waith tan 2024 **(Atodiad 1)**.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Estyn gwahoddiad i Aelodau Craffu i drafod manylion yr adroddiad hwn ac i nodi unrhyw agweddau ar y gwaith trawsnewid a allai elwa o archwiliad manwl yn y dyfodol.

4. Manylion yr adroddiad

Cyd-destun

4.1. Bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn disodli Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2002) sydd mewn grym ar hyn o bryd. Ategir y Ddeddf newydd gan reoliadau a Chod ADY. Mae'r Ddeddf yn disodli'r termau 'anghenion addysgu ychwanegol' (AAA) ac 'anawsterau dysgu a/neu anableddau dysgu' gyda'r term newydd 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY). Mae'r Ddeddf yn creu un system gydag un cynllun statudol, y Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd y cynllun hwn yn disodli cynlluniau presennol, megis Cynlluniau Addysg Unigol, Datganiadau AAA a Chynlluniau Dysgu a Sgiliau.

Cynnydd

4.2. Rhanbarthol – Mae Sir Ddinbych yn parhau i weithio ar y cyd gyda chydweithwyr ar draws y rhanbarth a gyda chefnogaeth gan yr Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol (Elizabeth Jones). Mae mwyafrif y gweithgorau rhanbarthol bellach wedi cwblhau eu gwaith ac mae unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill yn awr yn cael eu gweithredu'n lleol gan bob awdurdod lleol (ALl). Rydym yn parhau i gydweithio gyda chydweithwyr rhanbarthol ar lefelau gweithredol strategol pan fo angen.

4.3. **Hyfforddiant** - Darperir hyfforddiant ar y diwygiadau ADY i dimau ALl, y grŵp cefnogi rhieni STAND a Chymdeithas y Llywodraethwyr **(Atodiad 2)**. Mae GwE yn parhau i ddarparu hyfforddiant i ysgolion yn rhanbarthol ar Ymarfer Cynhwysol (h.y. Ymateb graddedig o Ddarpariaeth Gynhwysol hyd at Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol).

4.4. **Cyllidebau -** Mae cyllid Cynhwysiant Ysgolion (yn cynnwys ADY) wedi'i ddirprwyo'n llawn i ysgolion fel y cytunwyd yn y fforwm cyllideb ysgolion. Mae hyn yn gweithio tuag at gyfartaledd treigl 3 blynedd yn dilyn Mapio Darpariaeth gan ysgolion. Y nod yw caniatáu i ysgolion gynllunio'n fwy effeithiol i gefnogi dysgwyr y nodwyd bod ganddynt angen cefnogaeth ac i fod yn ymatebol i anghenion pob dysgwr.

Blynyddoedd Cynnar - Yn 2021-2022 gwelwyd diffyg o £8,000, talwyd am y diffyg yn defnyddio tanwariant Teuluoedd yn Gyntaf.

[Mae'n debygol, yn dilyn effaith Covid a'r argyfwng costau byw, lle mae rhieni'n gorfod lleihau nifer y sesiynau mae eu plant yn mynd iddynt mewn lleoliad cyn ysgol neu ohirio eu dyddiad dechrau, ein bod yn rhagweld cynnydd yn y galw eto eleni wrth i blant ddangos arwyddion o oedi o ran datblygiad].

4.5. **System TG** – Mae Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy a Wrecsam bellach wedi rhoi'r system TG ranbarthol ar waith sy'n eu galluogi i reoli'r prosesau ADY newydd. Enw'r system yw ECLIPSE a Sir Ddinbych sy'n arwain y prosiect hwn. Wedi'i ddarparu gan OLM, datrysiad llif gwaith sy'n seiliedig ar gwmwl yw ECLIPSE sy'n galluogi defnyddwyr i weithio'n fwy effeithiol p'un a ydynt yn mewngofnodi ar ffôn clyfar, llechen ddigidol neu gyfrifiadur. Bydd yn caniatáu gweithio ar y cyd wrth benderfynu a oes gan blentyn ADY, rheoli dogfennau'n effeithlon ar gyfer y dysgwyr hynny sydd ag ADY, monitro fframiau amser, dyddiadau cau ac adolygiadau blynyddol yn hawdd gyda rhybuddion penodol wedi'u hamseru i sicrhau bod dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni.

4.6. **Cefnogi'r Dysgwr** – Mae'r Tîm o Amgylch yr Ysgol wedi ei sefydlu er mwyn parhau i fodloni gofynion presennol y broses Asesu Statudol a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar ac ataliaeth, a nodi anghenion dysgu ychwanegol yn gywir ac yn brydlon. Bydd yn sicrhau proses hyblyg, ymatebol a thryloyw a fydd yn darparu camau gweithredu clir i gefnogi datblygiad taith addysgol y dysgwr. Rydym yn cynnal adolygiad ar hyn o bryd er mwyn mireinio prosesau.

4.7. **Darpariaeth** – Rydym yn parhau i weithio gydag ysgolion i lunio eu darpariaeth, gan gynnwys ymyraethau a strategaethau maen nhw'n eu defnyddio i gefnogi dysgwyr gydag ADY a dysgwyr heb ADY. Bydd hyn wedyn yn caniatáu i ni, ynghyd ag ysgolion, gael dealltwriaeth glir pan fydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar blentyn, cwestiwn allweddol wrth benderfynu a oes gan blentyn ADY.

4.8. **Cynllun Datblygu Unigol** - Rydym wedi bod yn cefnogi ysgolion gyda'r broses ystyried ADY lle bo angen. Rydym yn parhau i gynnal gweithdai yn ein cyfarfod i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ar draws y sir, yr un mwyaf diweddar ar

fireinio Canlyniadau a disgrifiadau o Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar y Cynlluniau Datblygu Unigol. Bydd y cynllun hwn yn disodli cynlluniau presennol, megis Cynlluniau Addysg Unigol, Datganiadau AAA a Chynlluniau Dysgu a Sgiliau. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a pharhad, yn ogystal â sicrhau bod darpariaeth a hawliau'n cael eu diogelu er gwaethaf difrifoldeb neu gymhlethdod yr anghenion..

4.9. **Dogfennaeth** – Mae dogfennau yn cael eu datblygu, gan ysgolion a fydd yn cael eu cynnwys mewn 'Proffil Dysgwr' (a gaiff ei gofnodi yn y diwedd ar system TG Eclipse). Bydd hyn yn cynnal cefnogaeth, cynnydd a thargedau dysgwyr sydd angen cymorth wedi'i dargedu ond nad oes ganddynt ADY. Rydym wedi gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu cyfres o lythyrau dwyieithog i ysgolion ac ALl eu defnyddio yn y prosesau ADY a nodir yn y Cod ADY. Rydym hefyd wedi gweithio gydag ysgolion i greu protocol Cynhwysiant i ysgolion ei fabwysiadu. Mae dogfen ddrafft Egwyddorion a Phrosesau Sir Ddinbych bron â'i gorffen.

4.10. **Parodrwydd Ysgolion** – Mae ysgolion wedi cael cefnogaeth rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd, a oedd yn orfodol o 4 Ionawr 2021. Rydym wedi darparu ein canllawiau ategol ein hunain yn ogystal â'r rolau a chyfrifoldebau a nodir yn y Cod ADY er mwyn i ysgolion ystyried y rôl gynhwysiant ehangach sydd gan Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae ysgolion hefyd wedi bod yn cwblhau cerrig milltir GwE (mae'r rhain yn dargedau canllaw i fodloni gofynion y diwygiadau ADY) ar blatfform ar-lein G6 ac rydym hefyd yn cynnig cefnogaeth i ysgolion lle gofynnir amdano ynghyd â chynrychiolwyr GwE.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r maes hwn o waith yn cyfrannu at wneud sir Ddinbych yn ardal lle mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio a gyda'r sgiliau i wneud hynny. Mae hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn rywle y gall pobl ifanc flodeuo a chael y cychwyn gorau mewn bywyd waeth pa anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddyn nhw.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae TGCh CSDd yn cefnogi Gwasanaethau Addysg gyda'r system TG Eclipse. Cost sefydlu'r flwyddyn gyntaf oedd £27,100.00. Ariannwyd hyn drwy grant AAA/ADY

Llywodraeth Cymru. Caiff costau rheolaidd y system TG eu rhannu rhwng yr ALl ac ysgolion.

6.2. Mae'r ALl yn parhau i ddefnyddio grantiau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r ALl ac ysgolion i weithredu diwygiadau ADY.

6.3. Seicolegwyr Addysg - Yn genedlaethol, deallir y bydd cynnydd yn y llwyth gwaith drwy gyflwyno, gweithredu a sefydlu diwygiadau ADY. Rydym yn bwriadu cynyddu lefelau staffio yn y cyfnod sefydlu i ystyried cynnwys yr ystod oedran estynedig o ymgynnwys disgyblion 0-25 oed.

6.4. Rydym wedi cael un Athro Ymgynghorol ADY newydd (oherwydd ymddeoliad) ac rydym wedi recriwtio ail Athro Ymgynghorol ADY dros dro i gefnogi sefydlu Cod ADY a Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (2018) o fewn yr ALl ac ar draws ysgolion.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad cychwynnol (01/06/2021). Mae'r rhwystrau sy'n bresennol gyda'r gymuned Teithwyr wedi cael eu nodi fel maes sydd angen sylw, a bydd hyn yn cael ei archwilio ymhellach gan y tîm prosiect. Mae hyn yn mynd rhagddo. Nodwyd hefyd, ymgysylltu yn y dyfodol, gan sicrhau bod yr holl fudd-ddeiliaid yn gallu cyfrannu at y prosiect parhaus. Mae SNAP Cymru bellach wedi cael eu penodi'n wasanaeth cyngor y rhanbarth ar gyfer ADY ac, yn rhan o'r cytundeb hwn, byddant yn sefydlu fforwm partneriaeth rhieni rhanbarthol. Mae'r prosiect yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gynhyrchu systemau a deunyddiau dwyieithog. Rydym yn parhau i gadw at ddisgwyliad y Cod ADY bod y ddarpariaeth yn cael ei darparu'n Gymraeg ble'n bosibl.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Bu trafodaethau (lle y bo'n berthnasol) ag undebau llafur a phenaethiaid yn gadarnhaol iawn. Rydym hefyd wedi gweithio'n rhanbarthol i sefydlu partneriaeth rhieni fel fforwm i rannu a derbyn sylwadau ar y gwaith parhaus i'r diwygiadau ADY.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Bydd costau yn cael eu cwrdd o gyllidebau dirprwyedig sydd eisoes yn bodoli i ysgolion, cyllideb addysg a hefyd cyllid grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae angen / bydd angen cynnal ac, o bosib, cynyddu capasiti'r tîm Seicoleg Addysg a'r timau Anghenion Dysgu Ychwanegol, i sicrhau bod yr ALl yn bodloni pob gofyniad statudol.

10.2. Mae'r broses recriwtio ar waith ar hyn o bryd i gael EYALNLO newydd oherwydd bod deiliad presennol y swydd yn ymddeol yn gynnar.

10.3. Lefelau staffio ar gyfer Gweithwyr Cyswllt Teulu:

1 aelod o'r tîm ar gontract dros dro tan Rhagfyr 2022

1 cynorthwy-ydd yn darparu Sesiynau Iaith a Chwarae wedi'u hariannu tan 31 Mawrth.

Risgiau

Mae'r grant ysgolion gwledig wedi dod i ben ac mae hyn wedi arwain at beidio â chael Gweithiwr Cyswllt Teulu dynodedig i ysgolion gwledig. Mae hyn yn ein gadael â gwasanaeth llai wrth i ni geisio darparu rhywfaint o gefnogaeth i gymunedau gwledig, gan roi galw cynyddol ar y tîm presennol.

Gyda'r cynnydd yng nghaledi ariannol, mae teuluoedd ac ysgolion angen cefnogaeth Gweithiwr Cyswllt Teulu yn fwy nag erioed a bydd hyn yn cael ei effeithio gan y gostyngiad pellach o ran nifer y staff ym mis Rhagfyr a mis Mawrth.

Mae ysgolion yn gwneud cais am Gyrsiau Rhianta Solihull a sesiynau Iaith a Chwarae ond rydym yn llawn ar hyn o bryd. Rydym wedi nodi bod angen rhoi hwb i Sgiliau Iaith a Chwarae plant cyn-ysgol, mae llawer ohonynt yn fabanod a anwyd yn ystod y pandemig ac maent wedi methu allan ar lawer.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae pwerau mewn perthynas â'r materion yn yr adroddiad hwn yn unol ag:

- Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000;
- Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor